**Eitem 5 Atodiad 2**

| | |
|---|---|
| Cyfarfod | Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn |
| Dyddiad | 16 Tachwedd 2018 |
| Pwnc | Adroddiad Gweithgor Ymchwiliad Craffu Cyngor Gwynedd –<br>Cynllunio a'r Iaith Gymraeg |

- Nodir eich bod wedi derbyn arfarniad beirniadol gan arbenigwyr ym maes cynllunio ieithyddol gyda datblygiadau mawr.
- Nodir nad ydych wedi derbyn arweiniad gan arbenigwyr ym meysydd ymchwil a dadansoddeg nac ymgysylltu ac ymgynghori.
- Mae Aelodau'r Gweithgor yn dymuno tynnu eich sylw unwaith eto at yr argymhellion a gyflwynwyd i chi ym mis Mawrth 2018. Rydym yn dal o'r farn eu bod yn bwrpasol ac angen eu cyfarch gennych.
- Erbyn hyn, mae'n siwr eich bod mewn gwell sefyllfa i ateb y cwestiynau a godwyd gan aelodau'r cyhoedd yn dilyn eich gwaith Ymgysylltu yn 2016.
- Cyflwynwyd Crynodeb i'r Panel Cynllunio ar y Cyd gan y Gweithgor ym mis Mawrth 2018 o'r ymatebion o'r Ymgysylltiad 2016 i'ch cynorthwyo (copi yn amgaeedig - Atodiad 1).
- Mae Aelodau'r Gweithgor yn awgrymu'n gryf bod Aelodau'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn rhoi ystyriaeth i'r prif faterion canlynol a godwyd gan gyfranwyr i'r Ymgysylltiad a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2016 ac a ystyriwyd gennych ym mis Mawrth 2018 er mwyn darbwyllo eich hunain bod y materion yma wedi'u cyfarch yn llawn gennych cyn cychwyn ar Ymgynghoriad pellach gyda'r cyhoedd.
- Argymhellir eich bod yn ateb y cwestiynau yng ngholofn C a CH yn gryno a chlir.

Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru

Egwyddor 9 – **Mae pobl yn cael gwybod beth yw effaith eu cyfraniad**

Rhoddir adborth amserol i'r cyfranogwyr i gyd am y safbwyntiau a fynegwyd ganddynt a'r trafodaethau a chamau gweithredu a gafwyd o ganlyniad, dylai dull a ffurf yr adborth roi ystyriaeth i hoffterau'r cyfranogwyr.

| A | B | C | CH |
| --- | --- | --- | --- |
| | Mater sydd angen ei gyfarch | Sut mae'n cael ei gyfarch yn y CCA diwygiedig neu os nad ydyw'n cael ei gyfarch esboniad cryno pam? | Tudalennau a phwyntiau penodol yn y CCA (e.e. rhif paragraff) |
| | **Ydi'r CCA cyfredol yn ymdrin â blaenoriaethau ar gyfer yr iaith Gymraeg o ran defnyddio tir neu adeiladau? Os nad ydi o, pa faterion amgen ydych chi'n awgrymu?** | | |
| 1 | Cryfhau'r Blaenoriaethau o safbwynt amddiffyn y Gymraeg | Rôl y CCA ydi darparu arweiniad i ehangu ar bolisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol, er mwyn cynorthwyo i weithredu'r Cynllun. Mae Polisi PS 5 (maen prawf 4) a Pholisi PS 1 yn gosod yr angen i ddatblygiadau newydd gyfrannu i warchod, cefnogi a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg. | Y CCA cyfan, ac yn benodol Adran 2 |
| 2 | Nodwch os ydi'r CCA yn declyn addas i wneud hyn neu beidio. | Gweler yr ymateb i 1 uchod | Y CCA cyfan, ac yn benodol Adran 2 |
| 3 | Sut mae'r CCA yn amddiffyn cymunedau Cymraeg eu hiaith | Gweler yr ymateb i 1 uchod. Mae'r broses o baratoi'r Cynllun a'i bolisïau wedi sicrhau bod yr effaith ar yr iaith Gymraeg wedi cael ei hystyried yn briodol, a bod y Cynllun trwy bolisïau amrywiol (sy'n cynnwys Polisi PS 5 a Pholisi PS 1) yn darparu fframwaith i ddiogelu a hyrwyddo'r iaith. | Y CCA cyfan, ac yn benodol Adran 2 |
| | **Ydi'r CCA cyfredol yn ymdrin â materion na ddylid eu cynnwys o fewn CCA? Os ydi o, wnewch chi roi manylion y materion yma?** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4 | Mae angen gwahaniaethu rhwng datblygiadau diwydiannol a phreswyl a bach a mawr | Mae'r fethodoleg ar gyfer cynnal asesiad i'w gyflwyno ar ffurf Datganiad Iaith Gymraeg ac adroddiad Asesiad Effaith Iaith Gymraeg yn nodi'r ffactorau a fydd angen rhoi sylw iddynt yn gysylltiedig â datblygiadau amrywiol sy'n cyrraedd trothwyon ym Mholisi PS 1. | Atodiad 7 ac Atodiad 8 |
| 5 | Nid ydi'r CCA cyfredol yn effeithiol o ran ystyried effaith ar yr iaith Gymraeg | Anghytuno gyda'r safbwynt hwn yng nghyd- destun y Canllaw diwygiedig. | Y CCA cyfan, ac yn benodol Adran 2 |
| 6 | **Ydi'r CCA cyfredol ddigon clir ynglŷn â pha fath o ddatblygiad a fydd angen cael gwybodaeth amdano o safbwynt yr iaith Gymraeg?** | | |
| 7 | Mae'r canllaw cyfredol yn annelwig | Anghytuno gyda'r safbwynt hwn yng nghyd- destun y Canllaw diwygiedig. | Y CCA cyfan, ac yn benodol Adran 2 |
| 8 | Mae'r trothwyon yn benagored ac mae angen adnabod mathau o ddatblygiadau a ddylai fod yn destun asesiad. | Meini prawf 1 a 2 Polisi PS 1, nid y Canllaw, sy'n rhoi'r trothwyon ar gyfer adnabod pa fath o ddatblygiad sydd angen bod yn destun asesiad. Mae'r Canllaw yn darparu arweiniad i ehangu ar y trothwyon hyn. | Diagram 5 |
| | | | |
| | **Mae'r CCA yn cynnwys nifer o gwestiynau er mwyn cynorthwyo ymgeiswyr i gyflwyno Datganiad Ieithyddol a Chymunedol ac Asesiad Effaith Ieithyddol. Ydi'r cwestiynau'n ddigon clir? A ddylid gofyn cwestiynau ychwanegol? Os ydych o'r farn bod angen newid, a wnewch chi awgrymu sut gellir newid y cwestiynau a/neu pa fath o gwestiynau sydd angen gofyn?** | | |
| 9 | Cynnwys Asesiad Iaith a Datganiad Iaith enghreifftiol bositif a negyddol. | Nac ydi. Bydd yr amgylchiadau sy'n ymwneud â datblygiadau unigol yn wahanol. Ni fyddai darparu enghreifftiau yn ychwanegu gwerth. Mae'r Canllaw yn canolbwyntio ar | Atodiad 7 ac Atodiad 8 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ddarparu methodolegau clir i gynnal yr asesiadau. | |
| 10 | Nodi’n glir beth yw arwyddocâd Asesiad neu Ddatganiad negyddol. | Ydi | Diagram 11<br>Maen prawf 3 ym Mholisi PS 1. |
| 11 | Cynnwys enghreifftiau o sut all datblygiad wneud y canlynol i’r iaith Gymraeg: Diogelu, Hyrwyddo, Cryfhau | Nac ydi. Mae’r Canllaw yn canolbwyntio ar ddarparu methodolegau clir i gynnal yr asesiadau, sy’n adnabod y ffactorau a fydd yn bwysig i’w hystyried i ddiogelu, hyrwyddo a chryfhau. Mae’r Canllaw hefyd yn adnabod mesurau lliniaru a chryfhau posib. | Atodiad 6, Atodiad 7, Atodiad 8 |
| 12 | Nodwch lle mae’r CCA diwygiedig yn gofyn cwestiynau am ffeithiau perthnasol pendant | Ydi | Atodiad 5, Atodiad 7 ac Atodiad 8 |
| 13 | Bod disgwyl i’r Ymgeisydd gyflwyno Asesiad sydd wedi’i lunio a’i arfarnu gan arbenigwyr cynllunio iaith annibynnol. | Ydi | Diagram 6, Diagram 7, Diagram 9, Atodiad 7 ac Atodiad 8 |
| 14 | Cyfrifoldeb yr Ymgeisydd ddylai ariannu hyn a chyfrifoldeb y Cyngor yw ei drefnu. | Ydi | Diagram 11 |
| 15 | Lle mae’r CCA diwygiedig wedi lleihau a/neu gyfuno cwestiynau? | Mae’r Canllaw yn darparu methodolegau newydd. | Atodiad 7 ac Atodiad 8 |
| 16 | Ydi’r datblygiad yn debygol o arwain at gynnydd neu leihad yn y boblogaeth a allai effeithio’r balans o siaradwyr Cymraeg/Saesneg yn bositif neu negyddol? | Ni fydd yn bosib i asesiadau roi ateb absoliwt i’r cwestiynau a rhestrir yn rhesi 16 – 46. Mae’n bwysig cofio hyd yn oed gyda gwybodaeth gynhwysfawr ni fyddai'n hawdd i fesur effaith bositif a negyddol oherwydd nad all y system gynllunio ragweld na rheoli priodweddau | Atodiad 7 ac Atodiad 8 |
| 17 | A allai’r datblygiad arwain at leihad absoliwt neu gyfrannol mewn nifer siaradwyr Cymraeg? | | |
| 18 | Sut allai’r datblygiad effeithio ar ddefnydd o’r iaith Gymraeg yn y gymuned? | | |
| 19 | Ydi’r datblygiad yn debygol o arwain at gynnydd mewn mudo i mewn neu fudo allan? | | |
| 20 | Sut fydd hyn yn effeithio ar nifer siaradwyr Cymraeg? | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 21 | A fyddai unrhyw newid yn barhaol neu dros dro? | personol (fel y gallu i siarad Cymraeg yn y dyfodol neu ddeinameg y defnydd ohoni). Ni all y system ychwaith wahaniaethu ar sail gallu ieithyddol ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio na gallu ieithyddol yr unigolion fydd yn meddiannu neu wneud defnydd o eiddo. Noder hefyd bod rhai o'r cwestiynau yn y fethodoleg asesu effaith sydd yn y canllawiau presennol. Nid yw'r gwaith o baratoi'r Canllaw newydd yn bwriadu eu hail adrodd oherwydd bod ein dealltwriaeth o'r maes yn fwy aeddfed ac y gellir dysgu o brofiadau o wirio asesiadau yn y gorffennol. Mae'r Canllaw diwygiedig yn ffocysu ar adnabod methodoleg a matrics sgorio i gynnal asesiadau fydd yn adnabod yr ystyriaethau a fydd yn cynorthwyo i adnabod pwy fydd yn cael ei effeithio (yn bositif neu negyddol) gan y datblygiad, sut fath o newid sy'n debygol, pa mor debygol ydi'r newid, graddfa'r risg, beth ellir ei wneud i newid y tebygolrwydd a'r risg – un ai trwy ymgorffori mesur lliniaru yn y datblygiad neu rwymo'r datblygiad | |
| 22 | Ydi'r Datblygiad yn debygol o arwain at newid strwythur oed yn ardal y gymuned? | | |
| 23 | Ydi'r Datblygiad yn debygol o gael effaith ar ansawdd bywyd y bobl leol? | | |
| 24 | A allai'r Datblygiad gael effaith ar iechyd a mwynderau'r gymuned? | | |
| 25 | A allai gynyddu'r risg o drosedd neu drais yn y gymuned? | | |
| 26 | Ydi'r Datblygiad yn debygol o gael effaith niweidiol ar fusnesau lleol a swyddi lleol? | | |
| 27 | A oes potensial y gallai'r Datblygiad arwain at gau busnesau – Cymraeg eu hiaith – lleol? | | |
| 28 | A allai'r datblygiad greu neu fygwth swyddi lleol? | | |
| 29 | Ydi'r Datblygiad yn debygol o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd yn y gymuned (neu'r ardal ehangach)? | | |
| 30 | A oes potensial i'r Datblygiad gynyddu mewnfudiad o siaradwyr di-gymraeg oherwydd amrywiaeth economaidd? | | |
| 31 | Ydi'r Datblygiad yn debygol o gael effaith ar lefelau tâl/cyflog a/neu brisiau tai? | | |
| 32 | A allai'r Datblygiad gynyddu/lleihau lefelau cyflog oherwydd cynnydd mewn cystadleuaeth? | | |
| 33 | A allai'r Datblygiad orfodi siaradwyr Cymraeg lleol i adael y gymuned oherwydd prisiau tai, neu eu rhwystro rhag dychwelyd? | | |
| 34 | Ydi'r Datblygiad yn debygol o gael effaith ar adeiladwaith lleol a darpariaeth gwasanaethau? | | |
| 35 | A allai'r Datblygiad fygwth neu ddiogelu ysgolion cyfrwng Cymraeg lleol a/neu gyfleusterau gofal iechyd? | | |
| 36 | A allai'r Datblygiad fygwth neu ddiogelu siopau, swyddfeydd post, banciau, tafarndai lleol mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith? | | |
| 37 | A oes potensial i'r Datblygiad arwain at dyndra cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau difrifol o fewn y gymuned Gymraeg ei hiaith? | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 38 | A allai'r Datblygiad gael effaith sylweddol anghyfartal ar rannau gwahanol o'r gymuned | trwy amod cynllunio neu gytundeb 106, a thrwy dynnu sylw am fesurau allai ymgeisydd ddefnyddio'n wirfoddol. | |
| 39 | A allai danseilio gwerthoedd traddodiadol rhannau penodol o'r gymuned? | | |
| 40 | A oes potensial y bydd y Datblygiad yn arwain at newidiadau mewn traddodiadau a diwylliant Cymreig? | | |
| 41 | A allai'r Datblygiad orfodi aelodau lleol o grwpiau lleol gwirfoddol, gweithgareddau neu ieuenctid allan o'r ardal oherwydd diweithdra neu brisiau tai uchel? | | |
| 42 | Ydi'r Datblygiad yn debygol o arwain at lai o ddefnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned am y rhesymau canlynol: | | |
| 43 | Siaradwyr Cymraeg yn ffurfio cyfran lai o'r boblogaeth? | | |
| 44 | Newid iaith mewn rhwydweithiau cymdeithasol penodol? | | |
| 45 | Diffyg gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn sgil y datblygiad – Addysg, Gofal Plant ac ati, | | |
| 46 | Ydi'r Datblygiad yn debygol o arwain at fwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gymuned? | | |
| | | | |
| | **Ydi'r CCA cyfredol yn ddigon clir ynglŷn â chael mewnbwn mentrau iaith lleol a chynllunwyr iaith i gynorthwyo ymgeiswyr i lunio'r cynnig a fydd yn destun cais cynllunio?** | | |
| 47 | A wnewch chi esbonio'n glir beth yw mewnbwn Mentrau Iaith ac Arbenigwyr Cynllunio Ieithyddol? | Mae'r Canllaw yn dweud mai rôl y person cymwys fydd defnyddio'r fethodoleg a chynghori'r ymgeisydd. Pan fydd y person cymwys yn ymgysylltu gyda'r Fenter Iaith fe gall y Fenter ddarparu gwybodaeth y person cymwys ei angen i gwblhau'r asesiad. | Diagram 6 a Diagram 7<br>Atodiad 7 ac Atodiad 8 |
| 48 | Nid mater o gynorthwyo'r ymgeisydd ddylai fod yma ond mater o gloriannu'r sefyllfa | Mae'r Canllaw yn dweud mai rôl y person cymwys fydd defnyddio'r fethodoleg a chynghori'r ymgeisydd. | Diagram 6 a Diagram 7<br>Atodiad 7 ac Atodiad 8 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 49 | A wnewch chi esbonio'n glir beth yw 'menter iaith leol'? | Nid yw'r Canllaw'n cyfeirio at 'fenter iaith leol' | Dim yn berthnasol |
| 50 | A oes digon o adnoddau ac arbenigedd gan Hunaniaith? | Nid yw hwn yn fater i'r Canllaw. | Dim yn berthnasol |
| 51 | Mae angen annog Datblygwyr i gynnal trafodaethau gyda 'mudiadau/mentrau' iaith leol. | Ydi | Atodiad 7 ac Atodiad 8 |
| 52 | Defnyddio mesuryddion a datblygu rhai newydd i gloriannu sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymunedol fyw. | Ydi | Atodiad 2, Atodiad 7 ac Atodiad 8 |
| 53 | Mae angen llunio canllawiau canolog cadarn | Ydi | Y CCA cyfan, ac yn benodol Adran 2 |
| | | | |
| | **Ydi'r CCA cyfredol ddigon clir ynglyn â pha fath o amodau cynllunio neu ymrwymiadau cynllunio y gellir eu llunio i sicrhau mesurau lliniaru priodol, iawndal a/neu fesurau gwella yn ymwneud â chynigion datblygu er mwyn cynnal neu gryfhau'r iaith Gymraeg, a sut fydd y Cynghorau yn mynd ati i gael amodau cynllunio neu ymrwymiadau?** | | |
| 54 | Dylai'r CCA newydd ddarparu enghreifftiau o liniaru addas a/neu fesurau cryfhau ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiadau. | Ydi | Atodiad 6 |
| 55 | Dylai'r CCA newydd gynnwys enghreifftiau o amodau safonol a goblygiadau cynllunio | Ydi | Atodiad 6 |
| 56 | Mae gwir angen mesurau cryfach | Ydi | Atodiad 6 |
| 57 | Dylid cynnwys enghreifftiau o fathau amrywiol o ddatblygiadau. | Dim yn berthnasol | Dim yn berthnasol |
| 58 | Dylai amodau cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl gynnwys amod ar gyfer datblygiad graddol dros bum mlynedd. | Ydi | Atodiad 6 |
| 59 | Dylid cael arweiniad canolog pendant | Ydi | Atodiad 6 |
| | | | |
| | **A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am gynnwys y CCA cyfredol?** | | |
| 60 | Mae angen gwella'r system sgorio | Ydi | Atodiad 7 ac Atodiad 8 |
| 61 | Dylai'r canllaw ystyried ardaloedd ehangach na dim ond y pentref neu'r dre ble mae'r Datblygiad yn digwydd, hyd at lefel Arfon, Meirion, Dwyfor. | Ydi | Atodiad 7 ac Atodiad 8 |
| 62 | Dylai hyn fod yng nghyd-destun beth sydd wedi digwydd yn yr ardal (eang) honno o fewn dyweder y 5 mlynedd ddiwethaf o leiaf | Ydi | Atodiad 7 ac Atodiad 8 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 63 | Dylid cryfhau’r amodau ynglŷn â defnydd o’r iaith Gymraeg ynglŷn ag arwyddion ac yn y blaen; a hefyd rhwystro newid hen enwau Cymraeg i Saesneg. | Mae maen prawf 4 ym Mholisi PS 1 yn gosod gofynion am Gynllun Arwyddion dwyieithog. Mae maen prawf 5 ym Mholisi PS 1 yn rhoi anogaeth i defnyddio enwau Cymraeg ar eiddo a strydoedd, er nad yw enwi eiddo a strydoedd yn fater cynllunio defnydd tir. Rôl y CCA ydi darparu arweiniad i ehangu ar bolisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol, er mwyn cynorthwyo i weithredu’r Cynllun. | C.29 a C.30 |
| 64 | Dylid rhoi ystyriaeth i bwy sy’n llenwi’r bwlch (tŷ gwag) wrth i bobl leol Cymraeg eu hiaith brynu tai newydd. | Ydi. | Cam 8 |
| 65 | Dylid nodi ar ddechrau’r CCA newydd bwysigrwydd allweddol Gwynedd fel cadarnle cryfaf y Gymraeg a’r angen am bolisïau penodol i warchod ei nodweddion unigryw ac i sicrhau dyfodol cynaliadwy i’r iaith. | Ydi. | Tabl 2 Adran 2 |
| 66 | Dylid nodi yn y CCA newydd amcanion strategaethau perthnasol i gryfhau’r iaith, gan gynnwys: | Ydi | C.18 – C.24 |
| 67 | Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-2017 sy’n amcanu at sicrhau cynnydd o 5% yng nghanran y boblogaeth sy’n gallu siarad Cymraeg erbyn 2021. | | |
| 68 | Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn sy’n amcanu at gynyddu nifer y cymunedau sydd â 70% a throsodd o’u poblogaeth yn medru’r Gymraeg. | | |
| 69 | Llywodraeth Cymru sy’n anelu at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050 | | |
| 70 | Nodyn Cyngor Technegol 20 sy’n seiliedig ar ddarpariaethau iaith Deddf Gynllunio (Cymru) 2015 | | |
| 71 | Yr angen i bob Datblygiad arfaethedig gael ei arfarnu yn ôl pa mor gydnaws yw â’r amcanion uchod. Dylid sicrhau felly fod pob Datblygiad dan sylw naill ai’n cyfrannu’n gadarnhaol at wireddu’r | Bydd defnyddio’r fethodolegau a roddir i gynnal asesiadau yn fodd i ddod i gasgliad ynglyn ag effaith | Atodiad 7 ac Atodiad 8 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | amcanion neu, o leiaf, na fyddai ar unrhyw gyfrif yn llesteirio'r ymdrechion i'w cyflawni. | datblygiad sy'n cyrraedd y trothwyon a roddir ym Mholisi PS 1 ar yr iaith Gymraeg mewn cymunedau. | |
| 72 | O ran y cwestiynau penodol ar y ffurflen, ni ellir, yn ein barn ni, ymateb yn ystyrlon iddynt yn yr adolygiad o'r Canllaw Cynllunio Atodol - Cynllunio a'r iaith Gymraeg cyfredol heb wybod i ba raddau y mae'r canllaw wedi llwyddo ers pan ddaeth yn weithredol yn 2009. | Nid yw hwn yn fater i'r Canllaw diwygiedig | Dim yn berthnasol |
| 73 | Cyn bwrw ymlaen, dylid cynnal asesiad ieithyddol o'r datblygiadau o 2009 hyd heddiw, er mwyn canfod a yw'r fersiwn cyfredol o'r canllaw wedi cyfrannu i ddiogelu, hyrwyddo ac atgyfnerthu'r Gymraeg. | Nid yw hwn yn fater i'r Canllaw diwygiedig | Dim yn berthnasol |
| 74 | Rhoi'r gorau i ddefnyddio Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol, a'i gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr ddarparu Asesiad Effaith Ieithyddol yn yr achosion lle bo Datganiad yn ofynnol ar hyn o bryd. | Rôl y CCA ydi darparu arweiniad i ehangu ar bolisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol, er mwyn cynorthwyo i weithredu'r Cynllun. Polisi PS 1 sydd yn gosod yr angen i wneud asesiad a'i gyflwyno ar ffurf Datganiad Iaith Gymraeg ac adroddiad Asesiad Effaith Iaith Gymraeg. | Dim yn berthnasol |
| 75 | Ei bod yn ofynnol i asesiad effaith ieithyddol gael ei gynhyrchu gan rai sydd â gwybodaeth a dealltwriaeth o'r maes. | Ydi | Diagram 6, Diagram 7, Diagram 9, Atodiad 7 ac Atodiad 8 |
| 76 | Ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod Cynllunio sicrhau bod yr Asesiad Effaith Ieithyddol yn cael ei arfarnu gan rai sydd â gwybodaeth a dealltwriaeth o'r maes. | Ydi | Diagram 11 |
| 77 | Bod ymgynghori gyda chynghorau cymuned, mentrau iaith a mudiadau iaith yn rhan allweddol o Asesiad Effaith Ieithyddol. | Ydi | Diagram 4, Atodiad 7 ac Atodiad 8 |